

Croeso i'n hail newyddlen ni!

Mae llawer o gartrefi a busnesau ardaloedd y Rhath, Pen-y-lan a Heol Casnewydd ym mherygl llifogydd Nant Lleucu a Rhymni. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithio â phartneriaid er mwyn dylunio a chyflawni cynllun rheoli perygl llifogydd Nant Lleucu â chymuned y Rhath. Amcana'r newyddlen hon roi gwybod i chi'r diweddaraf am hynt y cynllun.

Beth ydym ni'n ei wneud?

Mae angen gwella manau ar Nant Lleucu rhwng Ffordd Pen-y-lan ac archfarchnad newydd Morrison. Ymgynghorwn yn eang wrth inni ddatblygu ein cynlluniau, cyn ceisio caniatâd cynllunio a'r cymeradwyaethau angenrheidiol eraill. Cydnabyddwn sensitifrwydd y parciau rhestredig ac ardal gadwraeth y Rhath, a'u gwerth i'r ddinas. Amcanwn ddatblygu cynllun tirweddu trefol er mwyn rheoli llifogydd, gan ddefnyddio waliau llifogydd argloddiau wedi'u cynllunio'n ofalus, a gwella sianel yr afon a phontydd er mwyn cynyddu faint o ddŵr y gall y sianel ei ddal. Rydym yn awyddus, hefyd, i ymchwilio i gyfleoedd i wella mwynnderau a bywyd gwyllt.

Rydym wedi dechrau trafod y cynllun â Chyngor dinas Caerdydd, Cadw a Chyrff Statudol eraill er mwyn goleuo a llywio'r dylunio. Ar yr 8fed o Fai bu inni gynnal Adolygiad

dechreuol gyda Chomisiwn Dylunio Cymru. Bu iddynt ganolbwyntio ar yr agwedd at ddylunio ac effeithiau dichonol, yn hytrach nag atebion ffisegol, gan fod y cynllun yn ei egin, ac ni phenderfynwyd llawer ynglŷn â'r dyluniad, hyd yn hyn. Bwriedir cynnal ail adolygiad yn yr haf.

Archwilio'r Tir

Mae angen inni amgyffred cyflwr y tir yng nghyffiniau Nant Lleucu, Melin y Rhath, Railway Gardens, a Colchester Avenue. Er mwyn gwneud hyn, bydd rhaid inni gymryd samplau pridd. Bydd y gwaith yn dechrau ar y 9fed o Fehefin, ac yn parhau am bythefnos. Gwneir pob ymdrech i darfu cyn lleied ag y bo modd, ac yna adferwn yr ardal yn llwyr. Rydym yn ddiolchgar iawn am i chi barhau i gydweithredu, yn enwedig pan fo offer yn symud o gwmpas yr ardal.

Adborth o gyfarfod ac arddangosfa gyhoeddus y mis diwethaf

Daeth llawer o breswylwyr a pherchnogion busnesau lleol i'n cyfarfod galw heibio cyhoeddus yng Nghlwb Rygbi Sant Pedr ar y 15fed o Fai. Bu'n gyfle i drafod y cynlluniau amlinellol. Yr oedd y ffurflen adborth a'r wybodaeth ar gael yn Llyfrgell Pen-y-lan, hefyd, o'r 28ain o Fai hyd yr 2il o Fehefin: ac y maent ar gael ar ein gwefan yn:

Hoffem ddiolch i bawb allodd ddod draw, ac am drafferthu llenwi'r ffurflenni adborth. Byddwn yn defnyddio'r adborth hynod werthfawr i oleuo ein hegwyddorion dylunio a'n hatebion, wrth inni ddechrau'r broses ddylunio.

Beth nesaf?

Cynhaliwn sesiwn galw heibio ychwanegol ddiwedd yr haf er mwyn arddangos y gwahanol ddewisiadau dylunio. Bydd adborth o'r achlysur hwn o gymorth inni benderfynu dymuniad terfynol y cynllun. Amcanwn gyflwyno ein cais caniatâd cynllunio yn hydref 2014, a dechrau adeiladu yn 2015.

Er mwyn cysylltu â ni neu dderbyn newyddion:

Roath@NaturalResourcesWales.gov.uk



Mai 2014 - Arddangosfa gyhoeddus cynllun llifogydd y Rhath yn Llyfrgell Pen-y-lan.